



Ysgol Bro Plenydd



Gyda dygnwch a dysg fe dyfwn

Ysgol Bro Plenydd - Cyd Destun



Ysgol gynradd tua tair milltir tu allan i dref Bwlheli ar ochr ddwyreiniol Penrhyn Llyn yng Ngwynedd yw Ysgol Bro Plenydd. Sefydlwyd hi yn 1912. Rydym yn darparu addysg ar gyfer tua 80 o ddysgwyr o dair i un ar ddeg oed. Byddwn yn cynnig darpariaeth feithrin yn ystod sesiynau'r bore. Mae'r Cylch Meithrin Lleol yn rhannu yr un safle a ni ac yn cynnig sesiynau boreol.

Mae'r ysgol yn ran o gymuned wledig gyda dylanwad trefol. Mae diwydiant sy'n cefnogi amaethyddiaeth yn bwysig i economi yr ardal ac mae nifer helaeth o fusnesion a gwasanaethau yn y pentref ei hun ac ar ei gyrion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae tua 10% o'n disgyblion wedi bod yn gymwys i ginio am ddim ac rydym wedi nodi bod gan tua 9% o'n disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o'n dysgwyr yn dod o gartrefi ble y siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Yn Ysgol Bro Plenydd rydym yn addysgu yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddilyn Polisi Iaith Gwynedd.

Cymraeg fydd iaith dydd i ddydd yr ysgol. Rydym yn ymgorffori egwyddorion y Siarter Iaith i'r cwricwlwm cyflawn ac ymhob agwedd o'n gwaith.

Addysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Cyflwynir Saesneg yn raddol i ddysgwyr yn unol â'u parodrwydd at hynny o 7 oed ymlaen. Addysgir 50-70% yn y Gymraeg o 8-11 oed, yn ddibynnol ar anghenion blynyddoedd penodol. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn hyderus ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu safle gyda Chanolfan Gymunedol y pentref.





Ysgol Bro Plenydd - Ein Gweledigaeth Gyda dygnwch a dysg fe dyfwn

Diolch i blant, rhieni, llywodraethwyr a holl staff Ysgol Bro Plenydd am gyfrannu i'r weledigaeth hon. Diolch hefyd i grwpiau o'r gymuned leol a busnesion lleol am eu cyfraniad :

Yn Ysgol Bro Plenydd rydym yn gymuned hapus, gefnogol a gofalgwr ble mae staff yn cydweithio yn effeithiol fel tim i sicrhau fod dysgwyr yn mwynhau iechyd meddwl a lles emosiynol da ac yn mwynhau eu dysgu o ddydd i ddydd mewn awyrgylch ddiogel ble mae nhw'n gyfforddus i fynegi eu hunain yn hyderus.

Byddwn yn gwneud ein gorau i gynnig y gefnogaeth a'r gynhaliath gywir i sicrhau fod ein dysgwyr yn ymgyrraedd eu potensial eithaf. Credwn mewn rhoi pob cyfle i ddysgwyr serennu beth bynnag ei allu. Byddwn yn cefnogi dyheuadadau, cryfderau a diddordebau pob dysgwr.

Anelwn at drin pob plentyn yn deg ac yn gydradd fel eu bod yn teimlo balchder ynddynt eu hunain ac yn aelodau cyflawn a gwerthfawr o gymuned yr ysgol.

Credwn fod datblygu perthnasoedd iach yn bwysig ac anelwn at feithrin egwyddorion cadarn ym mhob disgybl a'r gallu i gydweithio, rhyngweithio a chymdeithasu yn effeithiol. Ein gobaith yw y bydd pob dysgwr yma yn hyderus ac yn ymwybodol o'i hunan werth.

Ein gobaith yw y bydd pob dysgwr yn datblygu sgiliau sylfaenol cadarn a'r wybodaeth y byddant eu hangen ar gyfer camau nesaf eu bywyd a'u haddysg. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau y byddant yn ein gadael yn unigolion medrus ac annibynnol sydd wedi mwynhau profiadau dysgu cyfoethog a chofiadwy o fewn waliau'r dosbarth a thu allan.

Mae llais pob dysgwr yn bwysig yn ethos ein hysgol. Ceisiwn ein gorau i ddatblygu y sgiliau sydd eu hangen ar bob dysgwr i fod yn hunan gynhaliol, i gadw'n ddiogel, i wynebu a goresgyn heriau bywyd, ac i fwynhau dysgu.

Credwn fod cyswllt cryf rhwng ysgol a chartref yn un modd o wireddu ein gweledigaeth. Edrychwn ymlaen i adeiladu perthynas gyfeillgar o gydbarch gyda phob rhiant a chydweithio er lles a llwyddiant pob disgybl.


Mae Ysgol Bro Plenydd yn ganolbwynt i bentref Y Ffor a'n gobaith yw y bydd y plant yn tyfu yn aelodau cydwybodol o'u cymuned ac yn arweinwyr parod i dorchi llewys. Mae'r pentref mewn ardal naturiol Gymraeg. Ein nod yw y byddwn yn meithrin dysgwyr sydd a balchder a diddordeb yn eu bro, eu gwlad a'u hiaith ac sy'n wybodus mewn hanes, traddodiadau a diwylliant lleol a chenedlaethol. Ond yn ogystal byddwn yn anelu at ehangu gorwelion ein dysgwyr fel eu bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth a rhyfeddod eu planed a'u lle nhw fel unigolion ynddi.



Ysgol Bro Plenydd - Ein Gwerthoedd

Wrth lunio ein gweledigaeth buom yn ymgynghori gyda'n dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr, staff a'r gymuned leol. Dyma'r gwerthoedd a amlygwyd wrth i ni drafod sy'n greiddiol ac yn bwysig i ni yn Ysgol Bro Plenydd :

Ein gwerthoedd	Ein hymddygiad
Parch ac ymddiriedaeth	Mae teulu Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys dysgwyr, staff, rhieni a rhanddeiliaid. Mae pob aelod o'r teulu yn werthfawr a bydd pawb yn cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Rydym yn parchu ein hunain, eraill ac eiddo. Rydym yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a moesgarwch. Byddwn yn ceisio ein gorau i greu awyrgylch groesawus a chyfeillgar ar bob achlysur. Anelwn at fod yn onest ac agored gan barchu barn a theimladau pawb.
Iechyd a Lles	Rydym yn rhoi pwyslais ar greu perthnasoedd iach a meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer hynny sef dangos empathi , gofal a chonsyrn am les ein gilydd, bod yn barod i helpu a chynnwys pawb. Rydym yn gweithredu i sicrhau fod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac fod pawb yn teimlo fod ganddynt lais sydd yn cael ei glywed. Rhown bwyslais ar ddatblygu iechyd corfforol ac emosiynol ein gilydd.
Ethos Ddysgu Symbylus a Deinamig	Rydym yn credu fod disgyblion hapus sy'n mwynhau yn dysgu yn dda ac yn datblygu cymhelliant i ddysgu. Anelwn at gynnig profiadau hwyliog, cyfoethog a chreadigol a fydd yn ennyn chwilfrydedd ac yn tanio dychymyg ein disgyblion.
Hyder a Gwytnwch	Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol yn ddisgyblion a staff i fod yn ymwybodol o'n hunan werth ac i wybod y gallwn oresgyn rhwystrau drwy groesawu her a dyfalbarhau i gyrraedd ein nod. Rydym yn meithrin disgyblion uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol Credwn ei bod hi'n holl bwysig ein bod yn gallu mynegi ein hunain yn gywir a hyderus ar lafar.
Cymreictod	Mae ganddom agwedd iach at y Gymraeg yn Ysgol Bro Plenydd. Rydym yn mwynhau i'r eithaf wrth ddathlu ein hunaniaeth. Erbyn diwedd eu gyrfa yn yr ysgol bydd y disgyblion yn rhugl ddwyieithog.
Cymuned a Chynefin	Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned leol ac mae'r gymuned yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein hysgol. Mae adnabod, mwynhau a dathlu ein cynefin yn hynod bwysig i ni. Rydym hefyd yn lawn sylweddoli fod ein cymuned a'n cynefin bach ni yn ran o'r byd eangach felly mae eangu ein gorfelion yn bwysig hefyd.
Mentro ac Arloesi	Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddisgwyr a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau.
Cefnogi a Chydweithio	O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstr o ysgolion, rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus.
Balchder	Yn Ysgol Bro Plenydd rydym yn falch ohono ni'n hunain, ein hysgol, ein cymuned, ein cynefin, ein gwlad ac ein hiaith




Ysgol Bro Plenydd – Addysgu – Pam ?

Wrth fynd ati i benderfynu beth fydd yn cael ei ddysgu yn Ysgol Bro Plenydd bydd gennym yn ol canllawiau Cwricwlwm Newydd i Gymru resymau clir a phendant ynglyn a beth fyddwn ni yn ei astudio a pham.

Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd ni fyddwn yn parhau i ddilyn ein hen themau nac yn cynllunio a gweithredu yn union yn yr un ffordd. Yn hytrach byddwn yn cychwyn drwy ystyried – PAM ?

Beth bynnag a fydd yn cael ei ddysgu bydd rhesymeg trosto. Bydd yn ateb gofynion ein disgyblion ni y funud hon, bydd yn berthnasol iddynt, yn dilyn eu dyheadau a'u diddordeb a bydd yn adlewyrchu gwerthoedd a gweledigaeth Ysgol Bro Plenydd.






Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Y 4 Diben

Mae'r 4 Diben yn greiddiol i'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Dyma ddyhead a gweledigaeth y Cwricwlwm ar gyfer disgyblion y dyfodol. A dyma felly sail ein cwricwlwm ninnau . Mae ein cynllunio a'n addysgu yn seiliedig arnynt ac felly hefyd ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Mae popeth a wnawn yn cefnogi'r 4 diben. Gweler isod grynodedeb o'r hyn mae'r 4 Diben yn ei olygu i ni. Bydd ein profiadau dysgu a'n dulliau addysgu yn anelu at eu gwireddu yn barhaus.

Yn Ysgol Bro Plenydd rydym wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion ohonynt ac maent yn gallu eu perthnasu i'w dysgu o ddydd i ddydd.

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog... sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy'n :	Cyfranwyr mentrus, creadigol ... sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy'n:	Dinasyddion egwyddorol, gwybodus ...sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac sy'n:	Unigolion iach, hyderus... sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy'n datblygu:
<ul style="list-style-type: none"> •gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain •mwynhau her a datrys problemau •datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau •gallu trafod eu dysgu yn hyderus •gallu cyfathrebu yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, •gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol 	<ul style="list-style-type: none"> •meddwl yn greadigol •cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i ddatrys problemau •adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt •hyderus i fentro •arwain a chydweithio mewn timau •mynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd •defnyddio eu hegri a'u sgiliau er budd eraill 	<ul style="list-style-type: none"> •ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd •deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol •deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd •gwybod am eu diwylliant a'u cymuned, •gwybod am gymdeithas a'r byd presennol ac yn y gorffennol •parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol •gweld bod ganddynt rôl i'w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned 	<ul style="list-style-type: none"> •iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol, •cydberthnasau yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth •gwerthoedd personol •sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd •y gallu i wynebu a goresgyn heriau



Ysgol Bro Plenydd – Addysgu – Beth ?

Byddwn yn cynllunio beth i'w astudio fel staff cyfan. Ar ol penderfynu pa agweddau fydd yn cael sylw ar y pryd byddwn yn rhannu syniadau ynglyn a themau posibl ar gyfer pob dosbarth. Yna byddwn yn hysbysu ein disgyblion, rhieni a grwpiau perthnasol o'r gymuned o'n themau ac yn gwahodd syniadau / barn a dyheadau ganddynt hwy. Byddwn yn ymestyn y drafodaeth staff ymhellach er mwyn sicrhau dilyniant addas o ran profiadau ac i osgoi ail adrodd rhwng dosbarthiadau.

Wrth gynllunio bydd pob athrawes yn canolbwyntio ar agweddau o'r hyn sy'n bwysig yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad ac yn defnyddio y Disgrifiadau Dysgu ynddynt er mwyn ystyried pa sgiliau a gwybodaeth fydd yn cael eu cyflwyno a'u datblygu

Sgiliau Cyfannol

Themau Trawsgwricwlaidd

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Beth ?

Elfennau Gorfodol

**6 Maes Dysgu a Phrofiad –
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
Disgrifiadau Dysgu**



Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Beth ?

Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

Y Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
<p><i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i></p> <p><i>Celf, Cerddoriaeth, Dawns, Drama , Ffilm a Chyfryngau Digidol</i></p>	<p><i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i></p> <p><i>Iechyd a datblygiad y corff Iechyd meddwl Lles emosiynol a chymdeithasol</i></p>	<p><i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i></p> <p><i>Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Hefyd elfennau o: Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol, Economeg, Athroniaeth</i></p>	<p><i>Yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynol:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1.Dealltwriaeth gysyniadol</i> <i>2.Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau</i> <i>3.Rhuglder</i> <i>4.Rhesymu rhesymegol</i> <i>5.Cymhwysedd strategol</i> 	<p><i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i></p> <p><i>Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Rhyngwladol, Llenyddiaeth</i></p>	<p><i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i></p> <p><i>Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol, Dylunio a Thechnoleg</i></p>

Bydd y **Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig** ar gyfer bob Maes yn sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd, dyfnder ac ehangder sgiliau a gwybodaeth ac ar gyfer cynnydd dysgwyr.



Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Beth ?

Datganiadau Yr Hyn sy'n bwysig ar gyfer y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

Datganiadau Yr Hyn sy'n bwysig ar gyfer y 6 Maes Dysgu a Phrofiad					
Y Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol	Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes	Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol	Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd	Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau
Mae ymateb a myfyrto, fel artist ac fel cynulleidfya, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol	Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol	Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd	Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch	Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas
Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg	Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill	Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol	Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol	Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu	Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi
	Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles	Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl	Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus	Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd	Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau
	Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles	Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol			Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol
					Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol



Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Beth ?

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd isod oddi fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol ar eu cyfer

Llythrennedd	Rhifedd	Cymhwysedd Digidol		
Themâu Trawsgwricwlaidd <i>Byddwn yn cynnwys ac yn ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm</i>				
Addysg cydberthynas a rhywioldeb	Addysg Hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn	Amrywiaeth	Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith	Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Sgiliau Cyfannol

Creadigrwydd ac arloesi	<ul style="list-style-type: none"> •Ymholi, archwilio, bod yn chwilfrydig, creu a rhannu syniadau •Cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	<ul style="list-style-type: none"> •Cwestiynu a gwerthuso gwybodaeth a sefyllfaoedd •Adnabod problemau a chynnig gwahanol ddatrysiadau •Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol
Effeithiolrwydd personol	<ul style="list-style-type: none"> •Datblygu deallusrwydd emosiynol, hyder ac annibyniaeth •Gwerthuso a thrafod eu dysgu presennol a'u camau nesaf •Gweld gwerth a dathlu camgymeriadau •Trafod ac ystyried eu barn a'u gwerthoedd a'u goblygiadau egwyddorol, cymdeithasol, diwylliannol
Cynllunio a threfnu	<ul style="list-style-type: none"> •Gosod nodau ar gyfer eu dysgu a thrafod a myfyrio ar eu cynnydd

Cysyniadau ac Elfennau gorfodol y Cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn rhoi sylw manwl i elfennau gorfodol y cwricwlwm wrth gynllunio. Mae polisïau'r ysgol ar gyfer y meysydd hyn yn manylu ar ein bwriadau.

- Datblygiad trawsgwricwlaidd sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Addysg, Cydberthynas a rhywioldeb
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Cymraeg
- Saesneg



Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Sut ?

Wedi i ni benderfynu ar beth fydd yn cael ei ddysgu byddwn wedyn yn edrych ar sut y byddwn yn ei ddysgu. Mae rhyddid i'r athrawon benderfynu eu hunain pa ddulliau cyflwyno sydd orau yn ddibynnol ar y maes dan sylw. Anelwn at weithio mor integreiddiedig a thrawsgwricwlaidd a phosibl er y bydd rhai pynciau e.e mathemateg ac iaith yn cael eu dysgu fel pynciau unigol yn aml. Rydym hefyd yn croesawu fod Iechyd a Lles yn gyfartal a'r 5 Maes Dysgu a Phrofiad arall gan fod sicrhau a chynnal parodrwydd disgyblion i ddysgu yn greiddiol ar gyfer cynnydd a datblygiad.

Stratgaethau Datblygu Meddwl

Y 12 Egwyddor
Addysgeg

Iechyd a Lles – Ysgol sy'n Wybodus am
Drama / ELSA / Tyfu Drwy'r Tymhorau

Community Based
Learning

Mantell yr Arbenigwr

Meddylfryd o Dwf

Mentegarwch

Sut ?

Drama a pherfformio

Dysgu yn yr Awyr
Agored

Cydweithio

Dulliau Pie Corbett

Dysgu uniongyrchol

Dysgu Annibynnol

Asesu ar Gyfer Dysgu

Cwestiwn Mawr /
Olwyn Tasg

Ymwelwyr

Ymweliadau

Tacsonomi Bloom-
Cwestiynu effeithiol



Ysgol Bro Plenydd - Addysgu - Sut ?

Mae addysgu effeithiol yn hanfodol os ydym am wireddu'r 4 diben, ein gweledigaeth fel ysgol a gofynion Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae sicrhau amgylchedd dysgu o safon uchel yn greiddiol i ni yn Ysgol Bro Plenydd ar gyfer ein disgyblion a'n staff addysgu. Mae cysondeb ethos ymhob dosbarth ar draws yr ysgol yn hollbwysig i ni er mwyn sicrhau amgylchfyd diogel, symbylus a deinamig er mwyn rhoi cyfleoedd i'n dysgwyr allu mentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.


Rydym yn gwerthuso ac yn mireinio ein dulliau addysgu'n barhaus, a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r **12 egwyddor addysgegol** a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm ac ar y dulliau yr ydym ni'n eu canfod yn llwyddiannus yn ein hysgol ni.

Y 12 Egwyddor Addysgegol

1. Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben.	2. Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy.	3. Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu.	4. Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.
5. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.	6. Creu cyd-destunau dilys.	7. Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.	8. Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.
9. Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.	10. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.	11. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydbertnasau cadarnhaol.	12. Hybu cydweithio.

Wrth i Gwricwlwm i Gymru dyfu a datblygu yn Ysgol Bro Plenydd bydd arbrofi ac arloesi'n hyderus fel staff addysgu yn bwysig iawn i ni a byddwn yn cydweithio'n agos o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr er mwyn sicrhau profiadau dysgu a'r addysgu gorau y gallwn ei gynnig i'n disgyblion.

Mae Ysgol Bro Plenydd yn sefydliad sy'n dysgu. Mae hyn yn golygu ein bod yn ymchwilio ac yn dysgu am ddulliau addysgu effeithiol yn barhaus ac yn rhoi bri ar ddysgu proffesiynol ac ymarfer wedi ei selio ar ymchwil er mwyn datblygu a gwella ein sgiliau addysgu.



Ysgol Bro Plenydd - Asesu a Chynnydd

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Rydym yn defnyddio'r **Disgrifiadau Dysgu** ar gyfer bob **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cyfateb **yn fras** i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 a 16 ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob Datganiad.

Yn ychwanegol at hyn, **mae egwyddorion cynnydd** sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser.

Egwyddorion Cynnydd				
Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol	Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd	Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau	Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau	Cynyddu effeithiolrwydd

Mae asesu yn chwarae rôl sylfaenol mewn sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol ac rydym yn defnyddio'r strategaethau i gyfrannu at ddatblygu darlun cyflawn o'r dysgwr - ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'r meysydd sydd angen eu datblygu er mwyn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu. Byddwn yn cyflawni Dibenion Asesu y Cwricwlwm fel a ganlyn :

Bydd **Asesu ar gyfer Dysgu / Asesu Ffurfiannol** yn digwydd yn barhaus ym mhob dosbarth ac yn ran greiddiol o'n haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd. Hyn sy'n gyrru'r dysgu yn ei flaen.

Byddwn hefyd **yn cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser** ac yn **dadansoddi cynnydd grwpiau** er mwyn gwerthuso ein dulliau dysgu. Byddwn yn defnyddio Taith 360 fel adnodd asesu a thracio. Defnyddir hefyd brofion darllen, sillafu a rhifedd er mwyn mesur cynnydd disgyblion yn y sgiliau sylfaenol.

Rydym hefyd yn asesu ac yn monitro lles dysgwyr a'u cymhelliant i ddysgu drwy ddefnyddio Boxall a Pass. Defnyddir yr asesiadau hyn i lunio darlun manwl sy'n darparu targedau cyrhaeddiad ar gyfer cynnydd a lles.





Ysgol Bro Plenydd - Asesu ar Gyfer Dysgu / Asesu Ffurfiannol

Mae **asesu ffurfiannol** yn greiddiol i'n haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd. Drwy weithredu ei egwyddorion a'i strategaethau'n llawn a chyson drwy'r ysgol rydym yn cyflawni nifer o agweddau o'r 4 diben, y sgiliau cyfannol a'r 12 egwyddor addysgegol. Dyma amlinelliad o sut mae gwahanol strategaethau/egwyddorion asesu ffurfiannol yn cyfrannu at eu gwireddu.

Strategaeth/ egwyddor asesu ffurfiannol	4 diben	Sgiliau cyfannol	12 egwyddor addysgegol.
Hinsawdd a diwylliant dosbarth, Meddylfryd Dwf , Pwerau dysgu , Parthau dysgu dathlu camgymeriadau, croesawu her	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus Cyfranwyr mentrus, creadigol	Creadigrwydd ac arloesi Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3 7, 10,11, 12
Cynnwys dysgwyr yn y cynllunio	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus Cyfranwyr mentrus, creadigol	Creadigrwydd ac arloesi Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3 7, 10,11, 12
Partneriaid trafod, <i>gyda'r ymarferwyr yn arsylwi ac yn asesu dealltwriaeth a gwybodaeth</i>	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus Cyfranwyr mentrus, creadigol	Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3,4 7, 10,11, 12
Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog	Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu	2,3,4,5,7,10, 11,12
Adborth – Llafar, Cyfoedion ac Ysgrifenedig	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus Cyfranwyr mentrus, creadigol	Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3,4, 7, 10,11, 12
Cwestiynu i ganfod gwybodaeth flaenorol/ presennol	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus Cyfranwyr mentrus, creadigol	Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3,4,5,7,10 11, 12
Sialensau gwahaniaethol	Dysgwyr uchelgeisiol, galluog Unigolion iach, hyderus	Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a datrys problemau	1,2,3,5,7,10 11, 12




Ysgol Bro Plenydd - Aseu a Chynnydd - Cyfathrebu a Rhieni

Byddwn yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr yn barhaus i feithrin perthnasoedd cadarnhaol er mwyn eu cynnwys mewn deialog pwrpasol ac ystyrion parthed cynnydd eu plentyn. Gall perthynas gyfeillgar o gydbarch hwyluso trafodaethau drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddeall sut y gallant gefnogi dysgu y tu mewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol.

Byddwn yn datblygu prosesau cyfathrebu eang ac effeithiol e.e. cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ddigidol, defnydd o SeeSaw, adroddiadau rheolaidd copi caled / ebost.

Bydd gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyrraethau neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu rhannu gyda rhieni a gofalwyr.





Cofiwch mai cychwyn y daith yw hyn. Byddwn yn gwerthuso ein dulliau ac yn datblygu wrth fyned ymlaen gan ymateb yn barhaus i ofynion ein disgyblion a'n cymuned gan lynnu i'n gwerthoedd a'n gweledigaeth.